# Adroddiad Blynyddol Grŵp Trawsbleidiol

**23.05.2023**

**Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio**

## 1. Aelodau'r grŵp a deiliaid swydd

### Aelodau

Cadeirydd: Mike Hedges AS

Janet Finch-Saunders AS
Dr Altaf Hussain AS
Joel James AS
Delyth Jewell AS
Peredur Owen Griffiths AS
Sioned Williams AS

### Aelodau allanol

- Steve Milsom - Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA)
- Huw Bendall - Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA)
- Dereck Roberts – Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru
- Aileen Haskell - Fforwm Pobl Hŷn Cymru
- Gareth Parsons - Fforwm Pobl Hŷn Cymru
- Barry Stephens - Cymru Bywiog
- Carys Henry - Ymddiriedolwr Age Cymru
- Charles Carter – Ymddiriedolwr Age Cymru
- Dr Bernadette Fuge – Llywydd Age Cymru
- Yr Athro John Williams – Cadeirydd Age Cymru
- Michael Phillips - Age Cymru
- Christopher Williams - Cynghrair Henoed Cymru
- Dewi John - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Becky Ricketts – Care & Repair Cymru
- Faye Patton - Care & Repair Cymru
- Andrea Nicholas-Jones – Action for Elders
- Naomi White - Y Groes Goch Brydeinig
- Emma Emsley - Hourglass Cymru
- Melanie Minty - Fforwm Gofal Cymru
- Mathew Norman - Diabetes UK (Cymru)
- Paul Chappell - RNID
- Steve Amos, RVS
- Lorraine Morgan – Jackie's Revolution
- Jackie Marshall-Cyrus – Jackie's Revolution
- Emma Davies - Gofal Cymdeithasol Cymru
- Neeta Baicher - BASW
- Dr Maria Cheshire-Allen – Prifysgol Abertawe
- Yr Athro Fonesig June Clark, Prifysgol Abertawe

**Ysgrifenyddiaeth**

Ceri Cryer - Age Cymru

**2. Cyfarfodydd blaenorol y Grŵp ers y cyfarfod cyffredinol blynyddol diwethaf**

Paratowyd cofnodion y cyfarfodydd gan Ceri Cryer a Michael Phillips, Age Cymru.

**Cyfarfod 1**

**Dyddiad y cyfarfod**: 7 Mehefin 2022 – cyfarfod ar-lein

**Mynychwyr**

| | |
|---|---|
| Mike Hedges AS (Cadeirydd) | Andrea Cooper, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Jane Hutt AS, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol | Ceri Cryer, Age Cymru |
| Jack Sargeant AS | Dr Bernadette Fuge, Llywydd Age Cymru |
| Ryland Doyle, Swyddfa Mike Hedges AS | Heather Ferguson, Age Cymru |
| Ioan Bellin, Swyddfa Rhys ab Owen AS | Steve Milsom, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA) |
| Alex Hughes-Howells, Swyddfa Dr Altaf Hussain | Michael Phillips, Age Cymru |
| Paul Webb, Llywodraeth Cymru | |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Peredur Owen Griffiths AS | Charles Carter, Ymddiriedolwr Age Cymru |
| Rachel Dawson, Age Cymru | |

Mae Lynda Wallis, a fu'n aelod hirsefydlog o'r Grŵp Trawsbleidiol wedi ymddiswyddo o gynrychioli Senedd Pobl Hŷn Cymru.

Croesawodd Mike Hedges AS bawb i'r cyfarfod.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf
Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2022.

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Strategaeth genedlaethol - Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt AS

> Diolch am y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) newydd ar gyfer 2022 i 2026.
>
> Mae'n Strategaeth uchelgeisiol, sy'n adeiladu ar ymyriadau llwyddiannus yr ydym am eu parhau ond sydd hefyd yn diffinio blaenoriaethau a dulliau newydd o ehangu a chanolbwyntio sut rydym yn mynd i'r afael â VAWDASV fel system gyfan.

Mae'n Strategaeth sydd wedi'i marcio gan ymrwymiad i fynd i'r afael ag achos yn ogystal ag effaith, a fydd yn dibynnu ar gydweithredu a gweithio mewn ffordd ataliol i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol VAWDASV.

Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar bartneriaeth gryfach. Mae cryn ymrwymiad rhwng partneriaid allweddol, yn statudol, yn y sector arbenigol a chyda goroeswyr. Fodd bynnag, gellir cryfhau strwythurau arweinyddiaeth a llywodraethu ymhellach er mwyn sicrhau bod camau'n cael eu cydgysylltu a'u cyfarwyddo fel ein bod, gyda'n gilydd, yn cynnig mwy na chyfanswm ein rhannau.

Mae hefyd yn Strategaeth i gymdeithas ehangach wneud newidiadau i normau, ymddygiadau a diwylliannau. Nid wyf am dynnu oddi ar y gwaith rhagorol sydd wedi'i wneud i gefnogi goroeswyr, ond mae angen i ni gyflawni mwy wrth fynd i'r afael â throseddwyr.

Rhan allweddol o'r dull Glasbrint newydd ar gyfer gweithredu'r strategaeth yw'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol sy'n dwyn ynghyd bartneriaid datganoledig a rhai nad ydynt wedi'u datganoli, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn. Rwy'n Cyd-gadeirio'r Bwrdd hwn gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn, ar ran y pedwar Llu Heddlu yng Nghymru. Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod lleisiau grŵp amrywiol o oroeswyr yn cael eu clywed i gyd-gynhyrchu ein hatebion a monitro ein cynnydd.

Bydd gwaith ar gyflawni'r Strategaeth yn cyd-fynd ag ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu a bydd yn Strategaeth i bawb yng Nghymru y mae VAWDASV wedi effeithio ar eu bywydau – beth bynnag fo'u hoedran. Rydym wedi gwrando ar yr adborth amhrisiadwy o'n hymgynghoriad ar Strategaeth ddrafft ac wedi cydnabod y pryderon am bobl hŷn sy'n wynebu VAWDASV.

Mewn ymateb i'r adborth hwn ac yn dilyn trafodaeth bellach yn y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar 23 Mai, rydym wedi cytuno ar ffrwd waith benodol a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion Pobl Hŷn mewn perthynas â materion VAWDASV.

Yn ogystal â'r ffrwd waith ar gyfer Pobl Hŷn, bydd gennym ffrydiau gwaith ar gyfer aflonyddu ar y stryd a diogelwch mewn mannau cyhoeddus; aflonyddu yn y gweithle; mynd i'r afael â chyflawni; comisiynu cynaliadwy; ac anghenion plant a phobl ifanc. Y ffrydiau gwaith fydd yn gyfrifol am ddatblygu cynlluniau gwaith manwl ar gyfer gweithredu'r Strategaeth.

Bydd lleisiau goroeswyr o wahanol gymunedau a chefndiroedd yn hanfodol ac yn rhan annatod o ddatblygu ein strategaeth mewn ffordd a all weithio yn y byd go iawn. Bydd gwrando ar y lleisiau amrywiol hynny hefyd yn ein helpu i ddod o hyd i atebion sy'n adeiladu ar gryfderau goroeswyr.

Mae hon yn strategaeth draws lywodraethol gydag ymgysylltiad a chefnogaeth weithredol gan gyd-Weinidogion ym maes addysg, iechyd, tai, llywodraeth leol a'r economi.

Mae angen i'r rhai sy'n agored i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol weithio gyda'n gilydd.

Rwy'n credu'n gryf bod gan y Strategaeth hon y gobaith o fod yn gam ymlaen yn ein huchelgais i ddod â VAWDASV i ben a gwneud Cymru'r lle mwyaf diogel i fyw i fenywod a merched, lle mae gan bawb yr hawl i 'fyw heb ofn'.

Cwestiynau a thrafodaeth

Steve Milsom – Mae'n galonogol i weld i ba raddau y gwnaethoch ystyried pobl hŷn yn y gwaith hwn – gan weithio gyda Chynghrair Pobl Hŷn Cymru a'r Comisiynydd Pobl Hŷn – mor falch eu bod ar y tasglu. Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn eisoes wedi gwneud rhywfaint o ymchwil ar drais yn erbyn dynion hŷn.

Gweinidog - Rydych yn gwneud rhai pwyntiau pwysig. Bûm yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Comisiynydd Pobl Hŷn, yn enwedig i drafod cam-drin domestig. Mae cydnabyddiaeth gynyddol o brofiadau dynion hŷn o gam-drin pobl hŷn, ac mae'n bwysig ein bod yn canolbwyntio arno o fewn ffrwd waith gyffredinol pobl hŷn. Mae'r pandemig wedi effeithio ar berthnasoedd yn sylweddol.

Heather Ferguson – Mae'r argyfwng costau byw yn cynyddu'r pwysau a all arwain at gam-drin domestig.

Gweinidog – Mae'r argyfwng yn cael effaith enfawr ar fywydau pobl hŷn – mae angen i ni edrych drwy'r lens costau byw. Rwy'n annog pawb i hyrwyddo'r ymgyrch 'Claim what's yours' – mae credyd pensiwn yn cael ei dan-ganmol yn aruthrol. Mae cefnogaeth ar gael gan Lywodraeth Cymru – fel y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf. (Cadarnhaodd y Gweinidog yn ddiweddarach y bydd y cynllun yn cael ei ehangu i gynnwys y rhai sy'n hawlio credyd pensiwn).

Andrea Cooper – Fe wnaethon ni gyhoeddi ystadegau am gam-drin dynion hŷn ym mis Gorffennaf.

Paul Webb – Mae angen i ni ganolbwyntio ar wrywdod gwenwynig fel problem cymdeithas gyfan, a'r angen i newid diwylliant. Gall y gweithgor pobl hŷn ganolbwyntio ar ddioddefwyr hŷn gwrywaidd. Gall y gwahanol weithgorau ddod at ei gilydd yn yr haf ac adrodd yn ôl ym mis Medi neu fis Hydref.

'Paid â Dechrau: Pobl hŷn yn archwilio eu hawliau' - Heather Ferguson, Age Cymru (ar ran Rachel Dawson, Swyddog Prosiect Hawliau Dynol, Age Cymru).

Cyflwynodd Heather ffilm fer animeiddiedig Age Cymru a chrynodeb o'r camau a gymerwyd yn ystod y prosiect chwe mis hwn, a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Gellir gweld y ffilm yn: [Prosiect hawliau dynol ¦ Age Cymru (ageuk.org.uk)]

Mike Hedges – mae rhai meddygfeydd yn dda iawn, ond mae eraill yn anodd iawn i fynd i mewn iddynt.

Heather Ferguson – gan gyfeirio at y trydydd arolwg cenedlaethol o brofiadau presennol pobl 50 oed a throsodd yng Nghymru o bandemig Covid-19, a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a mis Ebrill gan Age Cymru mewn partneriaeth â sefydliadau

pobl hŷn cenedlaethol - y soniwyd fwyaf am fynediad at ofal iechyd a meddygon teulu. Mae pobl hŷn yn cael trafferth gyda'r strwythur, yn enwedig gyda mynediad digidol, systemau brysbennu dros y ffôn, a gofalwyr yn ceisio trefnu apwyntiadau ar gyfer y bobl y maent yn gofalu amdanynt. Bydd yr arolwg yn cael ei gyhoeddi'r wythnos nesaf.

Steve Milsom – Mae hwn yn ddarn gwych o waith i godi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Prifysgol Abertawe i wneud gwaith ymchwil ar hawliau dynol.

Pwyntiau gweithredu

Gwahoddir Heather Ferguson i gyfarfod o'r Grŵp yn y dyfodol i siarad am ganlyniadau'r trydydd arolwg Covid cenedlaethol.

Unrhyw Fater Arall

Soniodd Ceri fod y Grŵp wedi cael rhywfaint o wybodaeth am brosiect ymchwil ac arloesi aml-bartner HARP (Iechyd, y Celfyddydau, Ymchwil, Pobl) sydd wedi bod yn archwilio sut y gall y celfyddydau chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o greu 'Cymru Iachach'. Mae'r partneriaid yn cynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Nesta, Labordy Prifysgol Caerdydd, Conffederasiwn GIG Cymru a Rhwydwaith Iechyd a Lles Celfyddydau Cymru. Bydd y wybodaeth yn cael ei dosbarthu gyda'r Cofnodion.

## Cyfarfod 2

**Dyddiad y cyfarfod**: 15 Tachwedd 2022 – cyfarfod ar-lein

**Mynychwyr**

| | |
|---|---|
| Mike Hedges AS (Cadeirydd) | Lorraine Morgan, Jackie’s Revolution |
| Ryland Doyle, swyddfa Mike Hedges AS | Andrea Nicholas-Jones, Jackie’s Revolution |
| Ceri Cryer, Age Cymru | Michael Phillips, Age Cymru |
| Heather Ferguson, Age Cymru | Jacob Powley, Age Cymru |
| Dr Bernadette Fuge, Llywydd Age Cymru | Becky Ricketts, Gofal a Thrwsio Cymru |
| Aileen Haskell, Fforwm Pobl Hŷn Cymru | Naomi White, Y Groes Goch Brydeinig |
| Jackie Marshall-Cyrus, Jackie’s Revolution | John Williams, Cadeirydd Age Cymru |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Charles Carter, Ymddiriedolwr Age Cymru | Dereck Roberts, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru |
| Carys Henry, Ymddiriedolwr Age Cymru | Christopher Williams, Cynghrair Henoed Cymru |
| Gareth Parsons, Fforwm Pobl Hŷn Cymru | |

Croesawodd Mike Hedges AS, Cadeirydd, pawb i'r cyfarfod.

Cofnodion y cyfarfod blaenorol
Cymeradwywyd y cofnodion ar gyfer y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2022.

Cyflwyniad i Jackie's Revolution CIC - Lorraine Morgan, Jackie's Revolution

Mae Jackie's Revolution yn fenter gymdeithasol newydd nad yw'n elwa. Cofrestrwyd Jackie's Revolution yn Nhorfaen, a chaiff ei gefnogi a'i gynghori gan Cwmpas. Bwriad Jackie's Revolution yw gwella gofal hirdymor ar gyfer oedolion hŷn.

Jackie's Revolution - Jackie Marshall–Cyrus, Prif Swyddog Gweithredol a sefydlydd Jackie's Revolution CIC (anfonwyd y cyflwyniad i aelodau'r Grŵp wedi'r cyfarfod).

Mae Jackie's Revolution eisiau cychwyn chwyldro ynghylch gofal hirdymor er mwyn i ni fyw'r bywydau gorau gallwn yn ein cartrefi ein hun. Does braidd dim wedi newid er mwyn gwella bywydau pobl. Mae diffyg arloesedd yn golygu bod pobl yn gorfod symud i fyw mewn sefydliadau gofal.

Mae Jackie's Revolution yn gwmni buddiannau cymunedol. Ei ffocws yw mynd i'r afael â'r heriau mae gofal hirdymor yn creu yn ein cymuned, gan ganolbwyntio ar bobl a anwyd rhwng 1945 a 1964. Ein pwrpas yw darparu'r dewis a'r gallu i bobl yn ein cymuned fedru byw a marw yn eu cartrefu eu hun. Ein nod yw - datrysiad sydd yn ffocysu ar dai, sydd yn modelu ffordd o fyw datblygedig gyda gofal cynaliadwy, sydd yn ateb y gofyn, gan gefnogi ffordd o fyw'r 21ain ganrif, gyda Hawliau Dynol wrth graidd y gwaith.

Mae nifer o heriau: nid yw'r model sefydliadol presennol ar gyfer gofal hirdymor bellach yn economaidd cynaliadwy, yn gymdeithasol ddymunol, nac yn foesol ddymunol fel ffordd o fyw ar gyfer oedolion hŷn yn yr 21ain ganrif; mae gallu'r bobl sydd eisiau byw mewn ffordd wahanol yn gyfyngedig tu hwnt; gwrthod a gwrthrychu pobl hŷn; mae argyfwng dyngarol o'n blaenau; ac i yrru arloesedd er mwyn cynnal annibyniaeth a chyd-ddibyniaeth pobl hŷn yn eu cartrefu a'u cymunedau eu hun, beth bynnag yw eu statws meddygol neu gymdeithasol.

Ein pwrpas yw helpu pobl i fyw yn eu cartrefu eu hun. Mae angen i ni gynllunio cartrefu sydd yn ateb y gofyn gyda hawliau dynol wrth graidd y gwaith. Rydyn ni wedi paratoi cynllun pum mlynedd 'Twice for Wales' - rhaglen arloesi ar raddfa fawr i gyd-greu, lleihau risg, efelychu, costio, treialu a gwerthuso ecosystem an-sefydliadol newydd o ddarpariaeth gofal hirdymor.

Mae angen i ni ddatblygu ecosystem sy'n cael ei harwain gan dai sydd yn ateb y gofyn ar gyfer y gofal heneiddio a hirdymor fydd angen ar bob un ohonom yn y dyfodol. Dylai heneiddio fod o ddiddordeb i bawb, er enghraifft, y rhai sy'n gweithio yn y maes roboteg, cynllunio, twristiaeth, ynni gwyrdd – mae angen i ni ymgysylltu â phob maes a chreu rhywbeth gwahanol.

Rydym wedi nodi manylion ein cynllun 5 mlynedd lefel uwch, a thros y tri mis nesaf rydym am gynnal dadansoddiad manwl o'r boblogaeth gan ddefnyddio rhan o'r boblogaeth sydd wedi ei dargedu.

Cwestiwn ag ateb

Becky Ricketts - rydych chi'n targedu grŵp oedran penodol, ond a fydd y rhaglen yn fwy hyblyg?

Jackie Marshall-Cyrus – pan rydych chi'n cofrestru fel Cwmni Budd Cymunedol mae'n rhaid i chi ddatgan eich cymuned darged yn eich cais, ond byddwn yn ymgysylltu ag eraill.

Yr Athro John Williams - Mae'r dull gweithredu yn hollol gywir bod angen gwneud newidiadau. Dylai hawliau dynol fod wrth wraidd gofal a gallu byw bywyd yn eich cartref eich hun gyda phecyn gofal addas. Rydym yn aml yn trafod mannau cyhoeddus sydd yn gefnogol o ran oedran, ac mae'n bwysig bod gofod preifat unigolyn yn eu galluogi i ddefnyddio gofod cyhoeddus - gall cartref gofal neu gartref person ddod yn garchar am lu o resymau. Mae angen cydnabod bod gofod preifat yr un mor bwysig yng nghyd-destun cymunedau sy'n gefnogol o ran oedran, a'r angen i gynllunio amgylchedd sy'n cefnogi hawliau dynol yn ein cartrefi a'n cartrefi gofal.

Diolchodd Mike Hedges AS i'r cyflwynwyr gan awgrymu eu bod yn dod yn ôl i'r Grŵp Trawsbleidiol ar ddyddiad yn y dyfodol i roi diweddariad am eu gwaith.

Pam ydyn ni'n aros? Cyflwynwyd gan Heather Ferguson, Pennaeth Polisi a Phrosiectau, Age Cymru (anfonwyd y cyflwyniad i aelodau'r Grŵp wedi'r cyfarfod).

Dyma drosolwg o'r argymhellion o adroddiad Age Cymru 'Pam ydyn ni'n aros - oedi mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru'. Cyhoeddwyd yr adroddiad yn ddiweddar, ac mae ar gael ar ein gwefan:
Age Cymru ¦ Pam ydyn ni'n aros - oedi mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru (ageuk.org.uk)

Cynhaliwyd gwaith ymchwil yn dilyn tystiolaeth gychwynnol yn gynnar yn 2022 gan wasanaethau Cyngor ac Eiriolaeth Age Cymru. Roedd y gwasanaethau yn nodi bod cyfnodau o oedi cyn i anghenion bobl hŷn gael eu hasesu gan ofal cymdeithasol, yn ogystal â chyfnod o oedi o ran creu a darparu pecynnau gofal unwaith y byddai asesiad wedi ei gwblhau. Mae cyfnod o oedi cyn derbyn gofal yn gallu cael effaith sylweddol ar bobl hŷn a'u hanwyliaid, ac mae anghenion pobl hŷn yn gallu newid wrth aros am ofal. Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu hanghofio, ac mae oedi o'r fath yn gallu arwain pobl i deimlo bod eu bywydau ar stop tan fod y broblem yn cael ei ddatrys.

Fe ofynnon ni i awdurdodau lleol am yr amser mae'n cymryd i asesu anghenion unigolyn dros 55 oed, a'r amser mae'n cymryd i ddarparu gofal iddynt. Fe ofynnon ni am yr wybodaeth ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf.

Un o brif ganfyddiadau ein hymchwil oedd bod problemau wrth gasglu data a chydraddoldeb data ledled Cymru. Fe gawsom ni wybodaeth gan 10 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru am ba mor hir mae'n ei gymryd i asesu anghenion pobl dros 55 oed. Fe gawsom ni wybodaeth gan chwe awdurdod lleol am ba mor hir mae'n ei gymryd i ddarparu gofal. Mae ein hymchwil yn dangos darlun rhannol ond pwysig o ba mor hir mae pobl yn aros am asesiad a phecyn gofal.

Yn ystod 2019/2020 gwelsom fod 86% o bobl dros 55 oed wedi cael eu hasesu o fewn 30 diwrnod ac yn ystod 2020/2021, roedd y ffigwr yn 91%. Roedd dros 19% wedi aros mwy na 60 diwrnod ar gyfer asesiad yn 2019/2020 a 4% yn ystod 2020/2021. Roedd ychydig dros 70% wedi derbyn rhywfaint o ofal, neu becyn gofal cyfan o fewn 30 diwrnod wedi asesiad yn 2019/20. Roedd ychydig dan 69% wedi derbyn gofal yn 2020/21. Mae gan bawb hawl gyfreithiol i gael eu hasesu yn amserol.

Roedd 295 o bobl wedi aros dros 30 diwrnod, ac roedd 135 o bobl wedi gorfod aros dros ddeufis, er mwyn dechrau defnyddio eu pecynnau gofal.

Gwelsom fod awdurdodau lleol yn gweithio'n galed i adfer o'r pandemig a gwella gofal cymdeithasol i bobl hŷn, a chefnogi gofalwyr. Siaradom ag arweinwyr gofal cymdeithasol a ddywedodd wrthym fod camau'n cael eu cymryd, a mwy o gefnogaeth yn cael ei ddarparu i fwy o fentrau, bod mwy o adnoddau TG yn cael eu darparu, gwell trafnidiaeth - a bod awdurdodau lleol eisiau gwneud mwy i gefnogi gofalwyr di-dâl. Mae cefnogaeth trydydd sector yn hanfodol er mwyn cefnogi gofal cymdeithasol ac mae angen darparu cyllid ar sail gynaliadwy

Nid oedd llawer o gyfathrebu rhwng awdurdodau lleol a’r unigolion oedd yn aros am asesiadau a gofal. Mae awdurdodau lleol yn ysgrifennu at bobl i ddweud eu bod ar restr aros a sut y mae modd eu cefnogi ond doedd rhai pobl heb dderbyn unrhyw gefnogaeth wrth iddynt aros. Mae angen gwella sut mae awdurdodau yn cyfathrebu ag unigolion, a’r gefnogaeth sydd ar gael i unigolion sydd yn aros, er mwyn eu cefnogi’n addas yn ystod y cyfnod o aros. Mae angen ffocws cenedlaethol er mwyn gweld pa fath o gymorth sydd ar gael, a pha fath o gefnogaeth sydd yn ddefnyddiol tra bod pobl yn aros.

Rydym yn deall y pwysau sydd ar awdurdodau, ac mae ein hargymhellion yn seiliedig ar newidiadau yr ydym yn teimlo y gellid eu gwneud. Mae 'na arfer da yn digwydd, ond mae angen i arfer da gael ei rannu.

Casgliadau ac argymhellion:

- Mae ymdrechion ledled Cymru ar waith er mwyn adfer o'r pandemig a gwella gofal cymdeithasol
- Nid yw systemau casglu data mewn llawer o awdurdodau lleol yn gallu monitro ac adrodd yn effeithiol am unigolion sydd yn aros am asesiad gofal neu becyn gofal

- Mae angen i awdurdodau lleol asesu eu gweithdrefnau presennol ar gyfer cyswllt cyntaf a chyfathrebu parhaus gyda phobl sydd angen gofal. Mae angen gwneud gwelliannau
- Mae angen i awdurdodau lleol ganfod adnoddau ychwanegol i gefnogi pobl sydd yn aros am ofal cymdeithasol
- Mae angen ffocws cenedlaethol i edrych ar ba gymorth sydd ar gael, a pha gymorth sydd yn ddefnyddiol tra bod pobl yn aros
- Mae angen i awdurdodau lleol rannu arferion gorau am sut maen nhw'n gwneud newidiadau gydag awdurdodau lleol eraill er mwyn helpu pawb ddod o hyd i atebion
- Mae cefnogaeth trydydd sector yn hanfodol i gefnogi gofal cymdeithasol ac mae angen darparu cyllid ar sail gynaliadwy
- Mae angen i fyrddau partneriaethau rhanbarthol archwilio a yw’r cymorth cymunedol a all helpu lles pobl yn ddigonol, ac os yw’r cymorth ar gael i bobl trwy wasanaethau rhagnodi cymdeithasol.

<u>Cwestiwn ac ateb</u>
Mike Hedges AS - rwy'n clywed bod neb yn dweud unrhyw beth wrth unrhyw un arall yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. O ganlyniad i hynny mae pobl yn meddwl bod pawb wedi anghofio amdanynt. Mae angen i ni gadw sianeli cyfathrebu ar agor, a dweud wrth bobl beth sy'n digwydd.

Lorraine Morgan - Dywedodd y panel dinasyddion yng Ngwent bod pecynnau cymorth wedi cael eu stopio yn ystod Covid. Ni chafodd unigolion ar y rhestr aros un galwad i ofyn sut oedden nhw'n ymdopi. Mae rhoi galwad yn beth mor amlwg i'w wneud.

Mike Hedges AS - mae gofyn 'sut ydych chi?' yn golygu llawer i bobl, ac mae'n rheolaeth dda sylfaenol.

Heather Ferguson - rydym yn cytuno y gellir cywiro rhai o'r pryderon hyn yn hawdd.

Aileen Haskell – y broblem sylfaenol yw bod y gweithlu gofal yn lleihau; mae'r hyfforddiant, yr addysg, a’r cyflogau'n rhy wael. Mae gofal cymdeithasol yn Sinderela ymhlith gwasanaethau eraill. Nid yw'r llywodraeth yn fodlon bwrw ati a darparu camau.

Mike Hedges AS – mae angen i ni ddelio gyda phobl yn ddigon cynnar er mwyn atal argyfwng.

Yr Athro John Williams - mae 'na ddiffyg data - mae hwn yn ddata sylfaenol sydd angen ei gasglu er mwyn denu arian. Wrth oedi mwy na 30 diwrnod gall iechyd pobl newid.

Heather Ferguson - cawsom dipyn o sioc i weld bod cymaint o ddiffyg data. Nid yw’r wybodaeth am bwy sydd yn derbyn cefnogaeth a phryd yn cael ei fonitro’n effeithiol. Rydym wedi siarad â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, a byddwn yn

croesawu unrhyw gamau gan y Grŵp Trawsbleidiol hwn i ail-bwysleisio'r materion hyn.

Dywedodd Mike Hedges AS y byddai'n ysgrifennu, fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

Unrhyw fusnes arall
Soniodd Heather Ferguson am arolwg i'r genedl sydd ar y gweill. Bydd Age Cymru yn cynnal yr arolwg mewn partneriaeth â sefydliadau cenedlaethol pobl hŷn yn gynnar yn y flwyddyn newydd, a byddai Age Cymru yn hapus i gyflwyno'r canfyddiadau i'r Grŵp.

Pwyntiau gweithredu

- Jackie Marshall-Cyrus a Lorraine Morgan i gael eu gwahodd yn ôl i'r Grŵp Trawsbleidiol i ddarparu diweddariad ar waith Jackie’s Revolution
- Mike Hedges AS (Cadeirydd) i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol am y diffyg data a materion eraill ynghylch oedi o fewn y maes gofal cymdeithasol
- Heather Ferguson i gael ei gwahodd i gyfarfod y Grŵp yn y dyfodol i gyflwyno canfyddiadau arolwg cyflwr y genedl sydd ar y gweill gan Age Cymru.

## Cyfarfod 3

**Dyddiad y cyfarfod**: 28 Mawrth 2023, cyfarfod ar-lein.

**Mynychwyr**

| | |
|---|---|
| Mike Hedges AS (Cadeirydd) | Mathew Norman, Diabetes UK (Cymru) |
| Ryland Doyle, Swyddfa Mike Hedges AS | Gareth Parsons, Fforwm Pobl Hŷn Cymru |
| Huw Bendall, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA) | Faye Patton, Care & Repair Cymru |
| Rachel Bowen, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | Michael Phillips, Age Cymru |
| Ceri Cryer, Age Cymru | Jacob Powley, Age Cymru |
| Dr Bernadette Fuge, Llywydd Age Cymru | Dereck Roberts, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru |
| Jackie Marshall-Cyrus, Jackie’s Revolution | Helen Twidle, Age Cymru |
| Lorraine Morgan, Jackie’s Revolution | Naomi White, Y Groes Goch Brydeinig |
| Andrea Nicholas-Jones, Action for Elders | Christopher Williams, Cynghrair Henoed Cymru |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Heledd Fychan AS | Carys Henry, Ymddiriedolwr Age Cymru |
| Llyr Gruffydd AS | Becky Ricketts, Care & Repair Cymru |
| Charles Carter, Ymddiriedolwr Age Cymru | Yr Athro John Williams, Cadeirydd Age Cymru |

Croesawodd y Cadeirydd Mike Hedges AS, bawb i'r cyfarfod.

Cofnodion y cyfarfod gynt a'r materion sy'n codi
Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2022 eu cymeradwyo.

Mae Mike Hedges AS yn holi ynghylch ymateb gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i'w lythyr ynglŷn ag oedi mewn gofal cymdeithasol.

Cyflwyniad – Cyflwr Tai Pobl Hŷn yng Nghymru – Faye Patton, Rheolwr Polisi, Care & Repair Cymru (anfonwyd y cyflwyniad i aelodau'r Grŵp wedi'r cyfarfod).

> Ym mis Ionawr 2023, gwnaeth Care & Repair Cymru lansio adroddiad: 'Cyflwr tai pobl hŷn yng Nghymru'[1] ynglŷn â rhai o'r heriau mae pobl hŷn yng Nghymru yn eu hwynebu o ran byw yn annibynnol a hefyd rhai o'r heriau sy'n wynebu Care & Repair Cymru.
>
> Mae Care & Repair Cymru'n darparu addasiadau tai a gwelliannau i'r cartref ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Rydym yn gweithredu ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae gennym weithwyr achos sy'n gallu cwblhau asesiadau cartref ar gyfer addasiadau a chwblhau Gwiriad Cartrefi Iach – gwirio'r tŷ am beryglon er enghraifft, lleithder, llwydni, diogelwch nwy a thân, unrhyw beth allai achosi i unigolyn gwympo ac ati, yn ogystal â chynnig gwybodaeth am bethau arall fel budd-daliadau a chyngor lles. Mae gennym hefyd wasanaethau pwrpasol ar gyfer pobl sydd yn yr ysbyty ond sy'n methu mynd adref oherwydd rheswm sy'n ymwneud â thai neu'r amgylchedd, Ymdopi'n Well ar gyfer pobl sy'n byw gyda nam synhwyraidd, a gwasanaeth am effeithlonrwydd ynni yn y cartref.
>
> Fe wnaethon ni ddefnyddio data gan dros 22,000 o gleientiaid dros gyfnod o 18 mis ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae oedran cyfartalog ein cleientiaid yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. O ran demograffeg, mae mwyafrif ein cleientiaid yn byw ar eu pen eu hunain, mae dwy ran o dair o'n cleientiaid yn fenywod a phedwar allan o bump o bobl rydyn ni'n helpu'n datgelu anabledd.
>
> Yn aml rydyn ni'n cael galwadau gan gleient yn gofyn am far canllaw oherwydd eu bod nhw wedi cwympo, a phan fyddwn ni'n cyrraedd y cartref nid dim ond bar canllaw sydd angen. Gall estyllod fod yn pydru, gallai'r carped fod yn pydru, efallai bod y waliau'n llaith a dyna pam fod y bar canllaw wedi cwympo, a hynny yn ei dro wedi cyfrannu at y gwymp. Mae galwad syml yn aml yn arwain at lawer mwy o faterion pan fyddwch chi'n cyrraedd cartref unigolyn.
>
> Yn ystod y cyfnod clo roedd pobl hŷn yn enwedig yn cael eu hannog i aros y tu mewn i'w tai, a'r hyn rydyn ni'n ei weld yw bod pobl wedi dysgu ymdopi mewn cartrefi nad ydynt yn addas ac sy'n peryglu eu hiechyd. Mae pobl yn

[1] https://careandrepair.org.uk/housing2023/

dweud wrthon ni eu bod nhw'n ymdopi – ond ni ddylen nhw fod yn gorfod ymdopi mewn cyflyrau gwael.

Beth allwn ni ei wneud i helpu? Yr her yw gwella cartrefi gwael sy'n dirywio. Yma yng Nghymru mae gennym ni'r stoc dai hynaf yng Ngorllewin Ewrop, ac mae hynny'n cael effaith ar ansawdd effeithlonrwydd ynni yng nghartrefi pobl. Mae pobl hŷn sy'n byw yn y cartrefi lleiaf effeithlon o ran ynni 20% yn fwy tebygol o farw yn ystod y gaeaf na deiliaid tai yn y cartrefi mwyaf effeithlon, ac rydym yn dod allan o aeaf lle mae materion wedi gwaethygu oherwydd yr argyfwng costau byw.

Mae costau deunyddiau ar gyfer gwaith atgyweirio yn achosi heriau. Mae ystafell wlyb a fyddai wedi costio tua £5,000 yn flaenorol bellach yn £6,000/£6,500 ar gyfartaledd. Mae yna hefyd brinder o gontractwyr dibynadwy. Mae cymhlethdod yr achosion yn golygu eu bod nhw nawr yn cymryd mwy o amser i'w datrys.

Mae 'na gysylltiad rhwng tai ac iechyd. Mae angen mwy o gefnogaeth ar bobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref, ac mae angen grant net diogelwch cenedlaethol arnom er enghraifft ar gyfer cleientiaid sy'n methu ariannu gwaith fel hyn eu hunain a lle na allwn ddod o hyd i gyllid cymwynasol ar eu rhan.

Cwestiynau a Thrafodaeth

Diolchodd Mike Hedges AS i Faye am y cyflwyniad a dywedodd fod gwaith Care & Repair Cymru wedi creu argraff arno. Cytunodd fod tai yn effeithio ar iechyd, ac mae hyn yn fater y mae e'n ei godi'n aml.

Lorraine Morgan: roedd yr adroddiad Agenda - Tai ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio, a gynhyrchwyd yn 2017, wedi gwneud argymhellion - roedd rhai ohonynt wedi cael eu cyflawni, e.e cefnogaeth i waith Care & Repair Cymru, ond nid yw argymhellion eraill wedi derbyn sylw.

Helen Twidle: ydy grantiau yn lleihau i'r rhai sydd eisoes wedi cael help?

Faye Patton: rydyn ni wedi helpu pobl sydd eisoes wedi cael cefnogaeth. Rydyn ni'n ymchwilio'r gronfa Tai gyda Gofal ynghylch sicrhau bod cartrefi'n cefnogi byw'n annibynnol, a fyddai'n cysylltu tai ac iechyd.

Jackie Marshall-Cyrus: Mae Care & Repair Cymru'n darparu gwasanaeth hanfodol ac angenrheidiol. Beth yw'r feddylfryd ynghylch cynaliadwyedd ar gyfer diwallu anghenion oedolion hŷn yng Nghymru, ac arloesi?

Michael Phillips: ydy Care & Repair Cymru wedi bod yn rhan o'r gwaith ynghylch pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi teuluol mawr yn gwahodd myfyrwyr i rannu tŷ?

Faye Patton: nid ydym wedi bod yn rhan o gynlluniau rhannu tai o'r fath. Wrth ateb cwestiwn Jackie, mae heriau a phwysau ar ein gwasanaethau yn cynyddu. Rydym yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau, ac ar gyfer gwaith

atgyweirio rydyn ni'n dod o hyd i gronfeydd llesol. O ran cynaliadwyedd mae'r adroddiad hwn yn sail i'n gwaith hymgyrchu. O ran arloesi, rydyn ni'n defnyddio ein profiad o'n gwasanaeth 70+ sydd wedi bod yn darparu effeithlonrwydd a chyngor ynni cartref, rydym hefyd yn datblygu cynllun busnes o amgylch ôl-osod a datgarboneiddio.

Andrea Nicholas-Jones: o ran pobl hŷn nad oedd yn llenwi'r ystafelloedd yn eu tai, roedd rhai cynlluniau ar waith yn ardal Abertawe i gysylltu gyda phobl iau.

Huw Bendall: mae'n siomedig nad yw'r cysylltiad rhwng tai ac iechyd yn cael ei gydnabod. Mae angen i gynlluniau rhannu tai gynnwys llawer o gefnogaeth gan asiantaethau eraill oherwydd risgiau posibl, a byddai cynllun fel hyn ond yn gallu helpu cyfran fechan o bobl.

Cyflwyniad – Amser i wneud pethau'n iawn - Rhyddhau cleifion o ysbytai ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Helen Twidle, Swyddog Polisi Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Age Cymru a Naomi White, Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus - Cymru, Y Groes Goch Brydeinig (anfonwyd y cyflwyniad i aelodau'r Grŵp wedi'r cyfarfod).

Mae Partneriaid Lleol Age Cymru yn darparu gwasanaethau rhyddhau cleifion o ysbytai mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol ar gyfer pobl 50+. Mae adroddiad Age Cymru 'Pam rydyn ni'n Aros?'[2] *(*2022) a'r gwaith cyfredol parhaus ar hyn yn dangos cynnydd pryderus yn yr amser oedi sy'n wynebu pobl hŷn sy'n cyfrannu at oedi wrth ryddhau cleifion yn amserol a phriodol o'r ysbyty.

Mae'r Groes Goch Brydeinig wedi gweithio mewn partneriaeth gyda'r GIG i gefnogi pobl pan fyddan nhw'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Ym Mawrth 2022 cyhoeddodd y Groes Goch Brydeinig 'Gwrando ar Beth sy'n Bwysig'[3], a oedd yn edrych ar brofiadau pobl o ryddhau cleifion o'r ysbyty yng Nghymru ers cyflwyno'r gofynion o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty rhag Covid-19.

Nid yw'r broses rhyddhau o'r ysbyty yn diwallu anghenion yr holl gleifion a gofalwr yng Nghymru yn gyson am y prif resymau canlynol:

- Diffyg cyfathrebu rhwng timoedd o staff yn yr ysbyty a staff sy'n gweithio yn y gymuned, a rhwng gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a chleifion a gofalwyr yn ystod y broses ryddhau
- Nid yw asesiadau cyn ac ôl-ryddhau yn cael eu cynnal lle'r oedd cleifion yn teimlo bod ganddynt anghenion cymorth ychwanegol
- Diffyg adnoddau yn y gymuned
- Nid yw llawer o gleifion yn derbyn taflenni gwybodaeth am y broses o ryddhau, na gwybodaeth gyswllt ddilynol.

2 Pam ydyn ni'n aros? Oedi mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru. (ageuk.org.uk)

3 https://www.redcross.org.uk/about-us/what-we-do/we-speak-up-for-change/placing-people-at-the-centre-of-hospital-discharge-in-wales

Mae'n hanfodol bod rhyddhau cleifion o ysbytai yn ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn hyrwyddo lles ac annibyniaeth. Roedd pandemig Covid-19 wedi cael effaith anghymesur ar bobl hŷn, ac mae mwy o bobl hŷn bellach yn byw gydag iechyd corfforol a meddyliol gwaeth.

Mae gan Age Cymru rai enghreifftiau o astudiaethau achos, yn dyddio o Ionawr 2023 yn dilyn canllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar ryddhau cleifion a gyhoeddwyd ar ddechrau'r flwyddyn, sy'n dangos materion yn ymwneud â rhyddhau cleifion o'r ysbyty, gan gynnwys: anghenion gofalwyr di-dâl, lle'r oedd perthynas wedi'i asesu fel bod angen symud i gartref gofal ond roedd yr ysbyty'n annog y teulu i ddarparu gofal yn y cartref tan fod lle ar gael mewn cartref gofal; teulu'n cael eu gwahardd rhag gwneud penderfyniadau ynghylch perthynas sy'n cael ei asesu ar gyfer lleoli mewn cartref gofal; claf yn cael ei ryddhau i fyw mewn amodau byw anniogel; a dim cefnogaeth a chyngor ynghylch anghenion meddyginiaeth person hŷn sy'n cael eu rhyddhau.

O ran beth yw esiampl dda o ryddhau unigolyn o'r ysbyty, mae angen gwella cyfathrebu rhwng teuluoedd a gofalwyr, a sicrhau eu bod nhw'n rhan o'r trafodaethau. Mae angen sicrhau bod gan ysbytai'r canllawiau a'r offer sydd eu hangen er mwyn cytuno ar y llwybr rhyddhau mwyaf priodol i gleifion. Mae angen buddsoddi mewn cefnogaeth yn y gymuned; Dylai pob claf gael taflen a gwybodaeth am ryddhau cleifion wrth fynd i mewn i'r ysbyty ac wrth adael ysbyty; a dylid defnyddio rhestrau gwirio holistaidd i gefnogi sgyrsiau gyda chleifion, teuluoedd a gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt gartref.

Ar hyn o bryd mae'r Groes Goch Brydeinig yn trafod ac yn annog Llywodraeth Cymru i weithredu rhestr wirio annibyniaeth pum rhan fel rhan o'u hadolygiad o ganllawiau rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Mae'r rhestr wirio annibyniaeth pum rhan yn ceisio sicrhau bod holl anghenion cleifion yn cael eu diwallu. Byddai'r rhestr wirio hon yn cynnwys asesu:

- Annibyniaeth ymarferol (er enghraifft, amgylchedd cartref addas ac addasiadau)
- Annibyniaeth gymdeithasol (er enghraifft, perygl o unigrwydd ac unigedd cymdeithasol, os oes ganddynt gysylltiadau ystyrlon a rhwydweithiau cymorth)
- Annibyniaeth seicolegol (er enghraifft, sut maen nhw'n teimlo am fynd adref, delio â straen sy'n gysylltiedig ag anaf)
- Annibyniaeth gorfforol (er enghraifft, golchi, gwisgo, gwneud te) a symudedd (er enghraifft, angen benthyg cadair olwyn am gyfnod byr)
- Annibyniaeth ariannol (er enghraifft, y gallu i ddygymod â beichiau ariannol).

Bydd y Groes Goch Brydeinig ac Age Cymru yn parhau i ymgyrchu ar y meysydd pwysig yma, a gofyn a fyddai'r Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio yn fodlon ysgrifennu at y Gweinidog am y materion rydyn ni wedi'u nodi heddiw?

Cwestiynau a Thrafodaeth

Cytunodd Mike Hedges AS y byddai'r Grŵp Trawsbleidiol yn ysgrifennu at y Gweinidog.

Lorraine Morgan: Rwy'n eistedd ar Banel Cyngor ar Bopeth yng Ngwent gan ganolbwyntio ar les, ac mae rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn eitem sefydlog ar gyfer pob un o'n cyfarfodydd. Rwyf wedi gofyn am gyfarfod gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn nodi pryderon ynghylch ryddhau cleifion o'r ysbyty.

Diolchodd Mike Hedges AS i'r tri siaradwr am eu cyflwyniadau, a gadawodd y cyfarfod er mwyn mynychu'r Cyfarfod Llawn.

Jackie Marshall-Cyrus: mae'n syfrdanol nad yw pethau wedi gwella dros y blynyddoedd er ein bod yn gwybod beth sydd angen i ni ei wneud i ryddhau pobl yn ddiogel. Mae angen mynd i'r afael â'r achos.

Helen Twidle: mae gwneud pethau yn y ffordd iawn yn arbed amser ac ymdrech yn y tymor hir.

Pwyntiau gweithredu

- Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio i ysgrifennu at y Gweinidog ynghylch materion yn ymwneud â rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

Unrhyw fusnes arall

Bydd Ceri Cryer yn dosbarthu gwybodaeth gan y Nuffield Council on Bioethics am lansiad eu hadroddiad ar ‘The Future of Ageing’, a hefyd arolwg cenedlaethol Age Cymru, 'Beth sy’n bwysig i chi'.

## 3. Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae’r Grŵp wedi cyfarfod â nhw yn ystod y flwyddyn flaenorol

Neb llai na fel mynychwyr o gyfarfodydd y Grŵp a’r rheiny y nodwyd eu bod wedi darparu cyflwyniadau yng nghyfarfodydd y Grŵp.

# <u>Datganiad Ariannol Blynyddol</u>

## 23 Mai 2023

## Grŵp Trawsbleidiol Pobl Hŷn a Heneiddio

### Mike Hedges

### Age Cymru

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp.** | Dim treuliau'r Grŵp | £0.00 |
| **Costau'r holl nwyddau.** | Dim nwyddau wedi eu prynu. | £0.00 |
| **Budd-daliadau a dderbyniwyd gan y grŵp neu aelodau unigol gan gyrff allanol.** | Dim budd-daliadau wedi eu derbyn. | £0.00 |
| **Unrhyw ysgrifenyddiaeth neu gymorth arall.** | Dim cymorth ariannol wedi'i dderbyn. | £0.00 |
| **Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp fel lletygarwch.** | | |
| **Dyddiad** | **Disgrifiad ac enw'r darparwr** | **Cost** |
| | Dim | £0.00 |
| | **Cyfanswm y costau** | **£0.00** |